

# Galluogi Cyfranogiad Effeithiol y Sector Gwirfoddol mewn Datblygu Cynaliadwy

ADOLYGIAD O YMGYSYLLTIAD Y SECTOR GWIRFODDOL Â DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL GWEITHREDU AC ARGYMHELLION AR GYFER Y CAMAU NESAF

MAI 2020



# Galluogi Cyfranogiad Effeithiol y Sector Gwirfoddol mewn Datblygu Cynaliadwy

## ADOLYGIAD O YMGYSYLLTIAD Y SECTOR GWIRFODDOL Â DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL GWEITHREDU AC ARGYMHELLION AR GYFER Y CAMAU NESAF

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan WWF Cymru ar ran y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru i archwilio'r strwythurau a'r mecanweithiau sy'n ofynnol i alluogi bod y sector gwirfoddol yn ymwneud yn effeithiol â phroses Llywodraeth Cymru o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cafodd ei baratoi gan Cynnal Cymru, gyda chymorth CGGC, a chyfraniadau wrth amrywiaeth o fudiadau'r sector gwirfoddol.

Gobeithio y bydd yr adroddiad yn gyfraniad o bersbectif y sector gwirfoddol i'r ystyriaeth bresennol o ymgysylltiad ehangach ymhlith rhanddeiliaid ar ddatblygu cynaliadwy, ac yn arbennig, yr ymrwymiad diweddar a wnaed gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt, i sefydlu fforwm aml-randdeiliad i helpu Llywodraeth Cymru wrth weithredu ei Ddeddf ei hun.

## ACRONYMAU A DIFFINIADAU

### Acronymau:

DC - Datblygu cynaliadwy

Deddf LLCD - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

LLCC - Llywodraeth Cynulliad Cymru

LLC - Llywodraeth Cymru

## **Diffiniadau:**

**Ymateb Llywodraeth-gyfan** (i Ddeddf LLCD): y newidiadau a wnaed ar lefel gorfforaethol i drefniadaeth a swyddogaethau'r gwasanaeth sifil, y llywodraeth a phrosesau deddfwriaethol er mwyn gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac i fodloni gofynion Deddf LLCD.

**Cyngor Arbenigol:** Cyngori'r llywodraeth a chyrrff cyhoeddus drwy eiriolaeth, cydlynu tystiolaeth a chyngor arbenigol ar gyfer cyflwyno'n effeithiol, a all gynnwys enghreifftiau o arferion da, arloesi a beirniadaeth adeiladol lle bo angen.

**Craffu:** Dal y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill i gyfrif am gamau ar Ddatblygu Cynaliadwy drwy broses gydnabyddedig a chydlynus. Gall hyn gynnwys monitro ac asesu gweithrediad y polisi DC yn ogystal â'r sialens strategol o ran cwmpas ac uchelgais y polisi (e.e. yn achos Deddf LLCD, yr Amcanion Llesiant ac ymateb y Llywodraeth gyfan).

**Sefydlogi'r gweithredu:** Sefydlogi gweithredu cymdeithas-gyfan drwy godi ymwybyddiaeth, ymgyrchoedd, addysg, arweinyddiaeth a rhannu arferion gorau.

**Llais y Dinesydd:** deialog i alluogi dinasyddion i ddeall, adolygu a llunio polisïau (neu weledigaeth) ar lefel gyffredinol a chael ffordd o weld os yw pethau'n symud yn y cyfeiriad cywir. Mae hefyd yn cynnwys cynnig sianel i grwpiau sy'n cael eu clywed yn llai aml i fynegi barn.

**Ni:** awduron yr adroddiad h.y. Cynnal Cymru, WWF Cymru, CGGC

## **CRYNODEB GWEITHREDOL**

Arweiniodd uchelgais Llywodraeth Cymru i wreiddio datblygu cynaliadwy fel blaenoriaeth ganolog at basio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn 2015, sydd wedi'i chydabod yn rhyngwladol fel deddfwriaeth arloesol. Mae adolygiad o hanes DC yng Nghymru yn awgrymu, er bod gan Lywodraeth Cymru enw da o ran

deddfwriaeth arloesol, mae wedi dechrau bod ar ei hôl hi o ran i ba raddau y mae'n galluogi cymdeithas sifil i ymgysylltu â datblygiad a gweithrediad parhaus y Ddeddf. Mae adolygiad o'r prosesau cyfranogol sydd wedi bodoli i ymgysylltu â'r sector gwirfoddol o ran yr agenda hon ers 2000, yn awgrymu y cafwyd gostyngiad cyson yn y sianeli cyfranogol ers 2009, a gynyddodd ar ôl i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gael ei phasio yn 2015.

Roedd pasio Deddf LLCD yn cyd-fynd â chau neu ail-gyfeirio nifer o feganweithiau allweddol a oedd yn y gorffennol wedi cefnogi ymgysylltiad y sector gwirfoddol â DC o safbwynt polisi ac wrth hyrwyddo a gweithredu'n ehangach. Roedd y rhain yn cynnwys Grwp Cyfeirio'r Bil DC am arbenigedd polisi manwl; Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer cydweithio ar draws y sectorau ac adeiladu consensws o amgylch mater DC allweddol; a Cynnal Cymru – Fforwm Datblygu Cynaliadwy Cymru - a gyflawnodd nifer o rolau yn ystod ei oes, gan gynnwys craffu, rhoi cyngor, sefydlogi a rhoi llais i ddinasyddion yn ddiweddarach. Daeth y sgwrs genedlaethol 'Y Gymru a Garem' i ben yn 2015 a chafodd Fforwm Ieuentid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy a'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy eu cau yn ypummllynedd cyn hynny.

Arweiniodd y Ddeddf at greu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ond o ystyried y pwyslais ar gynghori a monitro'r sector cyhoeddus, ni chafodd ei chynllunio i ddarparu llwybr i barhau â'r un lefel o gyfranogiad ymhlith y sector gwirfoddol o ran polisi a gweithredu DC strategol a oedd yn bodoli yn y gorffennol. Gadawyd y momentwm enfawr ar gyfer cefnogi'r Ddeddf mewn limbo a oedd wedi'i datblygu yn yr ychydig flynyddoedd blaenorol ar draws y sector gwirfoddol, yn anad dim gan y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy a oedd yn cynrychioli, ar y pryd, dros 30 o fudiadau gwirfoddol ac a gafodd ei chydabod fel ffactor allweddol wrth helpu i lunio a hyrwyddo'r ddeddfwriaeth arloesol hon.

Er mwyn helpu i ddeall y newid yma o ran dull, mae'n werth nodi'r newid pwyslais yng ngwaith Cynnal Cymru – fforwm datblygu cynaliadwy Cymru – o 2011 ymlaen, wnaeth ostwng ei swyddogaethau craffu a

chyngor arbenigol a chynyddu ei rôl o ran y cysyniad o lais y dinesydd. Wrth i'w waith polisi ei hun barhau o amgylch y Ddeddf tan 2015, nid oedd bellach yn ganolbwynt ar gyfer ymgysylltu allanol neu gydlynu rhanddeiliaid. Grŵp Cyfeirio'r Bil DC oedd canolbwynt yr ymgysylltu polisi yn 2012, a olygai bod y prif lwybr lle gallai'r sector gwirfoddol ymgysylltu â'r llywodraeth o ran polisi DC, wedi newid o fod yn barhaol i fod yn fecanwaith a gyfyngwyd gan amser.

Heb fecanwaith sefydliadol pwrpasol i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar ei deddfwriaeth DC, mae WWF Cymru wedi arwain sawl menter sy'n ceisio sicrhau cyfranogiad strategol parhaus y sector gwirfoddol. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth ariannol ac arweinyddiaeth barhaus ar gyfer y Gynghrair DC i gydlynu llais torfol o fewn y sector gwirfoddol o ran y Ddeddf a datblygiad cyfres o weithdai gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid y sector gwirfoddol yn ystod 2018 a 19 i 'feithrin dealltwriaeth gyffredin' o sut gallai'r broses o weithredu'r Ddeddf gael ei datblygu a'i chyfathrebu gan Lywodraeth Cymru. Bwriad y gweithdai hyn oedd 'gosod y sylfeini er mwyn sicrhau bod ymwneud rhanddeiliaid y sector gwirfoddol yn fwy effeithiol a chynhyrchiol yn y dyfodol.'<sup>1</sup>

Mae aelodau'r Gynghrair DC yn croesawu'r ffaith bod yr angen am fwy o gyfranogiad ymhlith y sector gwirfoddol wrth weithredu'r Ddeddf wedi'i gydnabod gan Lywodraeth Cymru a bod fforwm newydd aml-randdeiliad yn cael ei gwmpasu i helpu i gynghori LLC ar weithredu Deddf LLC.

Rydym wedi ystyried y rolau amrywiol y gallai fforwm aml-randdeiliad ei gymryd yng ngoleuni prosesau cyfranogi DC a arferai fodoli yng Nghymru ac enghreifftiau o wledydd eraill.

Mae cyfweiliadau gydag aelodau wedi amlygu, o'r pedwar swyddogaeth a amlygwyd yn yr adroddiad, bod y diffyg mwyaf ers 2015 wedi bod mewn sianel sefydliadol ar gyfer mewnbyn y sector gwirfoddol o ran Cyngor

---

<sup>1</sup> All Together Report (WWF Cymru, 2018) p.4

Arbenigol a Chraffu wrth weithredu DC. Credwn y dylai fforwm aml-randdeiliad ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r diffyg hwn.

Rydym hefyd yn credu mai cefnogaeth LLC ar gyfer clymblaid sector gwirfoddol annibynnol (neu gymdeithas sifil) sy'n canolbwyntio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol yw'r ffordd orau o alluogi mudiadau gwirfoddol i gyfrannu at y Fforwm. Byddai'r camau gweithredu hyn yn mynd i'r afael â'r awgrymiadau yn yr adroddiad 'All Together' ar gyfer cyfathrebu a chydweithio mwy effeithiol a thryloyw rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid y sector gwirfoddol. Byddai hefyd yn cynyddu capasiti o fewn y sector gwirfoddol i ymgysylltu â phartneriaid allweddol eraill wrth gefnogi DC, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda CGGC i greu fforwm rheolaidd i gael deialog gyda mudiadau gwirfoddol tra'n cydnabod eu rôl hollbwysig wrth helpu i alluogi'r broses o gyflawni Nodau Llesiant Cymru. Rydym yn falch bod y cyfraniad hwn wedi'i gydnabod yn amlwg gan bob cyfranogwr, ond credwn mai dim ond drwy capasiti ac adnoddau strwythuredig, cyd-gysylltiedig ac arbenigol y bydd ei botensial i gyflawni'r rôl hon yn cael ei gynyddu i'r eithaf.

### **Argymhellion:**

1. Bod LLC yn buddsoddi yn y Fforwm Aml-Randdeiliad fel fforwm parhaol, sefydliadol traws-sector at ddibenion cydlynu cyngor a chraffu arbenigol gan randdeiliaid allanol o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Deddf LLCD.
2. Bod y fforwm yn cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog neu'r Dirprwy Brif Weinidog i gefnogi integreiddio a chydweithio mwy effeithiol ar draws portffolios.
3. Bod cynlluniau gwaith y Fforwm yn gydnaws â'r offerynnau a'r gofynion amserlen Deddf LLCD fel pennu'r Amcanion Llesiant etc.
4. Bod y sector gwirfoddol yn cael ei gefnogi i ymgysylltu'n effeithiol â'r Fforwm hwn a sianeli allweddol eraill – ac o bosib

gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Ddeddf – drwy greu gofod cymdeithas sifil sefydliadol ar wahân i gydnabod y ffaith na ellir gwireddu'r buddion posibl hyn yn ddigonol o dan y strwythurau presennol.

## CEFNDIR A METHODOLEG YMCHWIL

Yn 2019, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog, Jane Hutt, y bwriad i sefydlu fforwm aml-randdeiliad i gefnogi'r broses o weithredu Deddf LCD a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol. Fel rhan o'i waith ei hun i gefnogi'r broses o weithredu Deddf LCD, ac i gefnogi aelodau'r Gynghair DC y mae'n cadeirio ar hyn o bryd, mae WWF Cymru wedi comisiynu ymchwil i archwilio'r ffurf a'r swyddogaeth y gallai'r fforwm ei gymryd i alluogi cyfranogiad effeithiol y sector gwirfoddol o ran y broses o weithredu'r Ddeddf, yn benodol ymateb llywodraeth-gyfan Llywodraeth Cymru.

Mae'r ymchwil wedi edrych ar wahanol fodelau o ymgysylltiad cymdeithas sifil gyda DC o Gymru ac yn rhyngwladol er mwyn deall y gwahanol swyddogaethau y gall y rhain eu gwasanaethu. Nodwyd bedwar prif bwrpas, sef Mewnbwn Arbenigol, Craffu, Sefydlogi a Llais y Dinesydd, y cyfeirir atynt drwy gydol yr adroddiad.

I ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniad i greu fforwm aml-randdeiliad, edrychodd yr ymchwil hefyd ar hanes ymgysylltiad cymdeithas sifil gyda DC yng Nghymru, gan gynnwys y berthynas â Llywodraeth Cymru a'r rolau a'r swyddogaethau sydd wedi'u cynnal gan y mecanweithiau cyfranogol amrywiol sydd wedi bodoli ers 2000. Edrychodd ar y newidiadau o fewn y cyfnod hwn sydd wedi cynyddu, lleihau neu newid natur ymgysylltu. Mae crynodeb o'r adolygiadau hyn wedi'i gynnwys yn rhan un o'r adroddiad: *Adolygiad o ymgysylltiad cymdeithas sifil gyda Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru 2000-2009*

Yn rhan 2, *Yr Effaith ar y Sector Gwirfoddol* mae'r ymchwil hefyd wedi edrych ar rai o oblygiadau'r newidiadau hyn yn ogystal â chanlyniadau mathau eraill o waith sy'n cael eu harwain gan WWF Cymru i wella ymgysylltiad y sector gwirfoddol wrth weithredu Deddf LCD. Penllanw'r gwaith oedd yr adroddiad *All Together* a gweithdy ar ôl hynny ym mis Mai 2019 o ran datblygu'r syniadau i'w gweithredu. Roedd y gweithdy hwn yn cydnabod ac yn ailadrodd gwerth cyfranogiad effeithiol y sector



gwirfoddol wrth weithredu'r Ddeddf, yn enwedig ymateb y llywodraeth gyfan.

Mae'r adolygiadau hyn, yn ogystal ag ystyried y mecanweithiau mewn gwledydd eraill a thrafodaethau manwl gydag aelodau'r Gynghrair DC, wedi llywio'r argymhellion ynglŷn â ffurf a swyddogaeth corff rhanddeiliaid newydd ac mae'n cael ei gynnwys yn nhrydedd ran yr adroddiad: *Symud Ymlaen*. Mae hyn hefyd yn edrych ar sut gellir galluogi cyfranogiad effeithiol y sector gwirfoddol o fewn, ac ochr yn ochr â hyn.

Cynhaliwyd arolwg o aelodau'r Gynghrair hefyd, yn ogystal â phumpcyfweiliad strwythuredig i archwilio'r ffordd orau i fudiadau'r sector gwirfoddol ymgysylltu â'r strwythur newydd hwn ac a ellid gwneud hynny drwy'r mecanweithiau presennol neu a oedd angen gofod cymdeithas sifil sefydliadol newydd.

Drwy gydol yr adroddiad cyfeirir dro ar ôl tro at ganllawiau rhyngwladol ynghylch arferion gorau ar gyfer ymgysylltu â chymdeithas sifil o fewn yr Agenda DC, yn bennaf argymhelliad o adroddiad Concord 2017 sy'n nodi y dylid datblygu proses gyfranogi 'barhaol, strwythuredig a sefydliadol ar draws sectorau' i CSOs gymryd rhan yn y broses o weithredu Agenda 2030.<sup>2</sup>

---

<sup>2</sup> [MONITORING AGENDA 2030 IMPLEMENTATION ACROSS THE EU](#)  
Concord, 2017

## ADOLYGIAD O YMGYSYLLTIAD CYMDEITHAS SIFIL GyDA DATBLYGU CYNALIADWY YNG NGHYMRU 2000-2019

Pan sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999, daeth Cymru yn un o'r ychydig wledydd yn y byd â dyletswydd gyfreithiol yn ymwneud â datblygu cynaliadwy. Roedd y ddyletswydd a gynhwysir yn Neddf Llywodraeth Cymru (1998) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth arfer ei swyddogaethau, ac i gyhoeddi, ac adrodd yn erbyn hynny, cynllun datblygu cynaliadwy, gan amlygu sut mae egwyddorion wedi'u trosi'n ymarferol.

Cyhoeddwyd y cynllun DC cyntaf *Dysgu i Fyw yn Wahanol* ym mis Tachwedd 2000 ac roedd yr adran 'Gweithio gydag Eraill' yn cynnwys ymrwymadau i weithio gyda nifer o wahanol gynulleidfaoedd i gyflawni ei ganlyniadau. Roedd y rhain yn cynnwys llywodraeth leol, y sector cyhoeddus, busnes, y sector gwirfoddol, cymunedau ac unigolion. Ymrwymodd hefyd i alw ar 'arbenigedd a phrofiad lle bynnag y mae ar gael i ni, gan gynnwys sefydlu Fforwm Datblygu Cynaliadwy neu Banel o arbenigwyr neu randdeiliaid neu'r ddau.<sup>3</sup>

Ar y pryd, roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi derbyn cyngor polisi – ac wedi darparu cyfraniad ariannol ar ei gyfer – a mewnbwn arbenigol wrth y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, a sefydlwyd yn 2000 i fod yn ymgynghorydd annibynnol ar DC i lywodraeth y DU. Ei nod oedd datblygu gallu sefydliadol y llywodraeth i roi DC ar waith drwy bolisiau a rhaglenni gwaith. Cafodd ei oruchwylio gan Fwrdd aml-ddisgyblaeth o 16 o Gomisiynwyr o gefndiroedd academiaidd, gwyddonol a busnes fu'n cwrdd pedwar gwaith y flwyddyn. Roeddent yn cael cefnogaeth tîm mawr o staff (60 o staff ar draws pedwar swyddfa yn 2011) ar gyfer ymchwil a dadansoddi polisiau a chymorth corfforaethol. Roedd staff yn cynnwys tîm o Gymru gyda chylch gwaith o weithio'n agos â Llywodraeth

---

<sup>3</sup> [Learning to Lead Differently](#): Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000)

Cymru i ddarparu 'cyngor polisi, adeiladu capasiti ac asesiad annibynnol i helpu i wneud datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ganolog.'<sup>4</sup>

Roedd yr ymrwymiad i sefydlu ac ariannu mecanwaith ychwanegol yn rhannol yn ymateb i alwadau a fynegwyd yn eang gan gymdeithas sifil am fwy o gyfleoedd i ddylanwadu ar y ffordd y mae'r llywodraeth yn cyflwyno'r agenda DC. Mae cyflwyno Fforwm DC i Gymru sy'n agored i gynulleidfaoedd niferus, o'i gymharu â phanel mwy disylw, yn awgrymu y gwrandawyd ar y galwadau hyn a bod manteision dull aml-randdeiliad ehangach, mwy cydweithredol wedi'i gydnabod. Canlyniad hynny oedd creu Cynnal-Cymru yn 2002 - corff rhanddeiliaid annibynnol sy'n cynghori'r llywodraeth ar ddatblygu cynaliadwy yn ogystal â chydlynu safbwyntiau arbenigol ar gyfer beirniadaeth adeiladol hefyd yn 'gatalydd ar gyfer newid ar draws pob sector'.<sup>5</sup> Roedd ei weithgareddau a'i lywodraethiant yn adlewyrchu'r cylch gwaith hwn, gan ei fod yn rhwydwaith aelodaeth agored o sefydliadau ac unigolion, sy'n cynrychioli cylch diddordeb ehangach na'r Comisiwn DC, o dan arweiniad bwrdd o Gyfarwyddwyr a etholwyd gan ei aelodau sy'n atebol i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Roedd ei weithgareddau yn ymwneud â'r cyhoedd gan gynnwys ystod o waith ymgysylltu traws-sector a rhannu gwybodaeth yn ogystal â phrosiectau penodol i ddangos DC ar waith.

Yn 2002, cafodd Fforwm Ieuenctid Cymru ar DC ei greu, yn dilyn cyfarfod â'r Prif Weinidog Rhodri Morgan gydadego bobl ifanc o Gymru yn ystod Uwchgynhadledd y Ddaear 2002 yn Johannesburg. Wedi'i berswadio gan eu galwadau i roi ffordd i bobl ifanc a oedd yn poeni am faterion cynaliadwyedd gael dweud eu dweud a chael cyfle i newid pethau, sefydlwyd Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy ym mis Medi 2003 ar egwyddorion Addysg, Grymuso a Gweithredu ar gyfer Datblygu Cynaliadwy<sup>6</sup>. Cafodd ei redeg gan bobl ifanc o dan 25 oed gydag aelodaeth agored, ac fel Cynnal Cymru, roedd

---

<sup>4</sup> [SD Commission – Our Role](#) (Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, 2011)

<sup>5</sup> [Our History](#) (Cynnal Cymru, 2019)

<sup>6</sup> [A Sustainable Future for Wales?](#) (Positive News, 2005)

ganddo rôl nid yn unig wrth rannu arbenigedd a phrofiad cynrychioliadol gyda'r llywodraeth ond wrth sefydlogi gweithredu ymhlith cynulleidfaoedd anllywodraethol.

Erbyn yr ail Gynllun DC yn 2004 *Dechrau Byw yn Wahanol*, daeth rôl cymdeithas sifil wrth hyrwyddo, dehongli a galluogi DC yn fwy amlwg a newidiodd yr iaith o amgylch cydweithio yn ei Gynllun Gweithredu cysylltiedig. Trodd y bwriad o 'Weithio gydag eraill' yn y cynllun cyntaf yn 'Darparu gyda phartneriaid' a'r Cynllun Gweithredu ei hun, er bod y Cynllun DC cyntaf wedi canolbwyntio ar 'roi ein polisïau ein hunain mewn trefn' os oedd Cymru mewn gwirionedd i ddod yn genedl gynaliadwy, yna mae angen i ddatblygu cynaliadwy 'ymgysylltu â phob rhan o gymdeithas sifil'.<sup>7</sup> Cafodd rôl cymdeithas sifil wrth gyfrannu at y newid pwyslais yma ei gydnabod hefyd yn y testun:

'Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithio'n agos gyda sefydliadau anllywodraethol blaenllaw yng Nghymru wrth hyrwyddo a datblygu ei ddyletswydd datblygu cynaliadwy. Mae swyddfeydd Cymru o'r Cyrff Anllywodraethol rhyngwladol wedi bod yn arbennig o werthfawr wrth ein cysylltu â rhwydweithiau a gwybodaeth ehangach. Rydym hefyd wedi dysgu llawer o brofiad ymarferol grwpiau lleol a chymunedol a busnesau cymdeithasol ...'<sup>8</sup>

Nododd Cynllun Gweithredu'r Cynllun nifer o ymrwymïadau i barhau ac i wella gweithio mewn partneriaeth â chymdeithas sifil wrth ddatblygu polisïau a hyrwyddo ac ymgysylltu DC yn ehangach. Roedd y rhain yn cynnwys gweithio'n agos gyda phartneriaid busnes a chymdeithasol ar gynhyrchu a defnydd cynaliadwy ac ymgysylltu â phartneriaid yn fwy uniongyrchol wrth brofi a datblygu polisïau, ar y cyd â chynigion ar gyfer offeryn integreiddio polisïau. Byddai Cynnal Cymru yn sianel ar gyfer hyrwyddo arferion gorau ar draws sectorau a dysgu drwy ddatblygu

---

<sup>7</sup> [Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-2007 t.23](#) (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 004)

<sup>8</sup> Ibid p.20

'canolfan rithwir ar gyfer CD'<sup>9</sup> a hefyd yr ymddiriedaeth i ddatblygu Rhaglen Arweinyddiaeth Weithredol ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

O fewn yr ail gynllun, cafwyd ymrwymiad hefyd i LCC dynnu ar safbwyntiau a phrofiadau partneriaid wrth lunio'r adroddiadau blynyddol a'r adroddiad effeithiolrwydd statudol nesaf i'w llunio ar ôl yr etholiad nesaf. Unwaith eto, cyfeiriwyd at Cynnal Cymru fel sianel ar gyfer tynnu ar brofiad ac arbenigedd o fewn Cymru, ac o 2006, darparodd sylwebaeth annibynnol i Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy gan adlewyrchu barn ei haelodau a'i rhanddeiliaid.

**Ar y pwynt hwn, mae'r mecanweithiau ar gyfer cefnogi cyfranogiad y sector gwirfoddol mewn DC wedi cyflawni nifer o swyddogaethau. Roedd Cynnal Cymru a'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn llwybr ar gyfer cyngor a mewnbwn arbenigol i helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth lunio polisiau; roeddent yn sianel ar gyfer lledaenu arfer da a throsi polisiau i sefydlogi'r gweithredu ar DC ar draws sectorau gwahanol; ac roedd rôl gydnabyddedig a chefnogol hefyd ar gyfer craffu ac asesu cynnydd y llywodraeth. Drwy Fforwm Ieuencid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy cafwyd llwybr pwrpasol hefyd ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc. Yn eu cyfansoddiad, mae'r cyfuniad o'r tri strwythur uchod, a Cynnal Cymru yn benodol, hefyd yn adlewyrchu'r mecanweithiau cyfranogi parhaol, adnoddau, sefydliadol a thraws-sector a nodwyd yn ddiweddarach gan adroddiad Monitro Agenda Concord 2030<sup>10</sup> ac yn hollbwysig i alluogi cymdeithas sifil i gymryd rhan lawn wrth weithredu DC.**

Yn 2006, atgyfnerthodd Deddf Llywodraeth Cymru yr uchelgais i wreiddio DC wrth ymarfer holl swyddogaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru a

---

<sup>9</sup> Ibid p.20

<sup>10</sup> [MONITORING AGENDA 2030 IMPLEMENTATION ACROSS THE EU](#) (Concord, 2017)

gwelodd y blynyddoedd nesaf sawl datblygiad a adlewyrchodd ymrwymiad parhaus i gyfranogaeth cymdeithas sifil wrth ei weithredu. Un ohonynt oedd lansiad Comisiwn aml-ddisgyblaethol Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn 2007 a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol yn ogystal â'r byd academiaidd, busnes, gwyddonwyr a'r prif bleidiau gwleidyddol. Cadeiriwyd y corff aml-randdeiliad hwn gan Gomisiynydd Cymru o'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, Peter Davies, a chyflawnodd hefyd gyngor arbenigol, craffu a swyddogaethau sefydlogi o amgylch mater DC allweddol. Parhawyd hefyd i ymgysylltu â chymdeithas sifil i ddatblygu'r trydydd Cynllun DC i Gymru *Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned*<sup>11</sup> a gyhoeddwyd yn 2009.

*Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned* oedd y cynllun DC cyntaf i gynnwys rhagair gan y Prif Weinidog ac i gael ymrwymadau i DC ar draws y cabinet. Dechreuodd y Cynllun hefyd archwilio'n fwy manwl weledigaeth a rennir ar gyfer Cymru gynaliadwy. Er bod y ddogfen gyffredinol yn nodi'r rôl y byddai LLCC yn hyrwyddo sefydliadau eraill wrth weithredu DC, roedd dwy ddogfen ategol hefyd, gydag un wedi'i hanelu at y sector cyhoeddus ehangach a'r llall at fusnesau, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol, cymunedau, unigolion a sefydliadau eraill. Mynegwyd rôl cymdeithas sifil hefyd mewn sawl rhan o'r brif ddogfen gan gynnwys llunio polisiau, sy'n gysylltiedig ag ymrwymiad craidd LLCC 'i fod yn gynhwysol o ran eich ymwneud â phob rhanddeiliad wrth ddatblygu ein polisiau a'n rhaglenni'<sup>12</sup> a chafwyd ymrwymiad parhaus i gefnogi gwaith Cynnal Cymru a'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy.

Er gwaetha'r amcanion hyn, tua'r adeg honno y dechreuodd nifer a natur mecanweithiau ymgysylltu cymdeithas sifil newid, gan ddechrau yn 2009 gyda gostyngiad yng nghyllid Llywodraeth Cymru i Fforwm Ieuencid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy, a newidiodd ei enw i Dyfodol cyn cau'n

---

<sup>11</sup> [Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned – Y Cynllun Datblygu Cynaliadwy ar Lywodraeth](#) (Cynulliad Cymru, 2009)

<sup>12</sup> Ibid p.29

derfynol yn 2013, gan arwain at golli llais pobl ifanc ar faterion DC yn benodol. Penderfynodd llywodraeth y DU hefyd yn 2010 i dynnu cyllid o'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn unol â'r hyn a nodwyd fel tuedd fyd-eang ar y pryd i ddiddymu cyrff neu gynghorau datblygu cynaliadwy cenedlaethol.<sup>13</sup>

Wrth ymateb i hynny, cymerodd LLCC benderfyniad i greu corf newydd fyddai'n uno swyddogaethau hen dîm Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru a Cynnal Cymru gyda rôl newydd Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy.<sup>14</sup> Byddai'r corff newydd yn cadw swyddogaeth gynghori a chraffu annibynnol gyda'r Comisiynydd newydd yn parhau i ddarparu sylwebaeth annibynnol ar gynnydd o fewn yr Adroddiad Datblygu Cynaliadwy Blynyddol. Byddai'r Comisiynydd hefyd yn darparu arweinyddiaeth allanol ar DC i sbarduno a chefnogi gweithredu ar draws pob rhan o gymdeithas gan gynnwys dod â gwahanol bartneriaid at ei gilydd i fynd i'r afael â materion DC anodd.<sup>15</sup>

Ym mis Mawrth 2011 penodwyd cyn Gomisiynydd Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru, Peter Davies, fel Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy (CDC) am gyfnod cychwynnol o 15 mis, wrth i'r broses o lunio ffurf y corf newydd gael ei benderfynu. Tan hynny, byddai'r Comisiynydd yn derbyn cefnogaeth gan Cynnal Cymru, a oedd bellach wedi'i ymgorffori i hen dîm Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru, gan ganolbwyntio'r ddwy sianel flaenorol yn un. Roedd hyn yn ostyngiad yn lefel y buddsoddiad ar gyfer mecanweithiau cyfranogi mewn DC – mae'n amlwg bod sylwebaeth adroddiad blynyddol cyntaf y CDC yn sôn bod uno'r ddwy swydd yn parhau â'r ddarpariaeth gwasanaeth 'ar gost is' - yn ogystal â gostyngiad pellach ers 2009 yn nifer y sianeli sefydliadol sydd ar gael.

---

<sup>13</sup> Cynghorau Cenedlaethol ar Ddatblygu Cynaliadwy: Gwersi o'r gorffennol a'r presennol (SDPlanNet, 2014)

<sup>14</sup> <http://www.sd-commission.org.uk/news.php/393/minister-sets-out-plans-for-new-sustainable-development-body.html>

<sup>15</sup> [Datganiad Ysgrifenedig y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy](#), (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2011)

O ran ffurfiau a swyddogaethau 'corff DC newydd i Gymru', ymgynghorwyd ar hyn fel rhan o ymgynghoriad y Bil Datblygu Cynaliadwy a'r cynigion i ddeddfu i wneud DC yn egwyddor ganolog nid yn unig i Lywodraeth Cymru ond pob corff cyhoeddus yng Nghymru.

I gefnogi'r broses hon, sefydlwyd dau fecanwaith cyfranogol pellach, o dan arweiniad y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy. Y cyntaf oedd grŵp cyfeirio allanol traws-sector a sefydlwyd ddiwedd 2012 i fod 'yn ganolbwynt ymgysylltu allanol gyda'r broses cynllunio polisiau'.<sup>16</sup> Roedd y grŵp hwn yn llwybr tuag at gyngor a mewnbwn arbenigol ac yn cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru a'i Fwrdd Prosiect drwy gydol datblygiad y Bil tan i Ddeddf LLCD gael ei phasio yn 2015.

Yr ail oedd sgwrs genedlaethol beilot ar 'Y Gymru a Garem'. O dan arweiniad y Comisiynydd a'i ddarparu gan Cynnal Cymru, y nod oedd 'clywed gan bobl Cymru ac i wella ein dealltwriaeth o'r materion hirdymor y gallai cenedlaethau'r dyfodol eu hwynebu'.<sup>17</sup> Byddai hyn yn llywio'r weledigaeth ar gyfer Cymru gynaliadwy a fyddai'n cael ei mynegi yn y Bil DC newydd ac yn 'helpu i osod yr agenda i weithredu ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus datganoledig yng Nghymru'.<sup>18</sup>

O'r pwynt hwn ymlaen, daeth y pwyslais ar lais y dinesydd drwy'r sgwrs genedlaethol i'r amlwg fel llif gwaith craidd ar gyfer Cynnal Cymru a ddiffiniwyd drwy'r cytundeb 'Cymorth Allanol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru' gyda Llywodraeth Cymru o 2013 nes 2016.<sup>19</sup> Roedd ffrydiau gwaith eraill yn cynnwys darparu ysgrifenyddiaeth ar

---

<sup>16</sup> Ffurio Grŵp Cyfeirio Allanol ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy, Llythyr Gwahoddiad gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Awst 2012

<sup>17</sup> Datganiad Gweinidogol gan Jeff Cuthbert, Gweinidog dros Gymunedau a Threchu Tlodi, Tachwedd 2012 wedi'i gynnwys yng [nghyflwyniad y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy](#) i Gynhadledd Iechyd Cyhoeddus Cymru, Hydref 2014.

<sup>18</sup> Ibid

<sup>19</sup> [Cyfarwyddwyr Newydd yn Cynnal Cymru](#) (Cynnal Cymru, 2015)



gyfer Comisiwn Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd, gweithredu'r Siartr DC a darparu cymorth ysgrifenyddol, ymchwil a dadansoddi polisiau i'r Comisiynydd. Lleihaodd rôl graffu'r fforwm wrth i'r swyddogaeth hon gael ei throsglwyddo i'r Comisiynydd ac nid oedd bellach yn cynnig sylwebaeth ar yr Adroddiad Blynyddol Datblygu Cynaliadwy. Newidiodd strwythurau Cynnal Cymru hefyd; daeth yn llai o wyneb cyhoeddus a rhoddodd y gorau i fod yn gorff aelodaeth. Er iddo gadw ei arbenigedd polisi mewnol, y Grŵp Cyfeirio Allanol newydd oedd y 'canolbwynt' bellach ar gyfer ymgysylltu allanol o ran cynllunio polisiau ac roedd Cynnal Cymru bellach yn cael ei fframio'n fwy fel corff cefnogi ac ysgrifenyddol na'r mecanwaith cyfranogi cenedlaethol ar gyfer DC.

## **EFFAITH AR Y SECTOR GWIRFODDOL**

Gellir dadlau bod y ffocws cynyddol ar lais y dinesydd yn dal i ddod o fewn amcan cychwynol y fforwm rhanddeiliaid ar gyfer DC yng Nghymru - o alluogi llywodraeth i alw ar 'arbenigedd a phrofiad lle bynnag y mae ar gael i ni'. Serch hynny, symudodd cyd-destun y mewnbyn hwn o ddatblygiad polisi diriaethol ar wahân, i weledigaeth fwy cyfannol, wedi'i llywio gan brofiadau a chanfyddiadau dinasyddion. Canolbwyntiodd y sgwrs genedlaethol ar gyrchfan Cymru gynaliadwy yr hoffai ei dinasyddion gyrraedd. Serch hynny, i nifer o sefydliadau gwirfoddol, blaenoriaeth gyfatebol oedd canolbwyntio ar y newidiadau mewn uchelgais polisi, strategaeth a phroses y byddai eu hangen i gyrraedd y nod.

Yn 2014, ffurfiwyd Cynghrair Datblygu Cynaliadwy ar wahân yn y sector gwirfoddol i ddarparu llais torfol wrth ymgysylltu â Grŵp Cyfeirio'r Bil DC a Llywodraeth Cymru. Dechreuodd y Gynghrair gyda grŵp craidd o elusennau datblygu amgylcheddol a rhyngwladol ond ehangodd i fwy na 30 o sefydliadau cymdeithas sifil 'o elusennau amgylcheddol a datblygu i grwpiau ffydd a chred, iaith, cymuned a menywod'<sup>20</sup> erbyn i'r Ddeddf gael ei phasio. Gweithiodd y sefydliadau hyn gyda'i gilydd a chyfreithwyr

---

<sup>20</sup> [Shaping our Future Who we are](#) (Cynghrair DC, 2019)

i ddatblygu eu cynnig eu hunain ar gyfer Bil Datblygu Cynaliadwy. Er bod Cynnal Cymru yn rhan o'r Gynghrair, cafodd ei chadeirio gan WWF-Cymru gyda Cyswllt Amgylchedd Cymru yn darparu'r ysgrifenyddiaeth. **Roedd hyn yn golygu mewnbwn sylweddol o amser ac adnoddau staff y sector gwirfoddol, gan amlygu'r archwaeth barhaus i gefnogi'r agenda DC uwchlaw'r llwybrau a gynigiwyd gan y sianeli sefydliadol a fodolai ar y pryd.**

Yn 2015, pasiwyd deddfwriaeth datblygu cynaliadwy Cymru ar ffurf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chrëwyd Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Cafodd y gyllideb a arferai gael ei rhoi i adnoddau Cynnal Cymru, y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, Comisiwn Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd a'r sgwrs Genedlaethol, ei dargyfeirio i'r corff newydd a chafodd nifer o staff Cynnal Cymru eu trosglwyddo (TUPE) i'r corff newydd i ddarparu ysgrifenyddiaeth, ymchwil polisi a chymorth dadansoddi parhaus. Daeth rôl y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy i ben, felly hefyd grŵp cyfeirio'r 'Bil DC', a phenderfynwyd peidio â pharhau â Chomisiwn Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd. Er bod Cynnal Cymru wedi parhau'n elusen datblygu cynaliadwy annibynnol, nid oedd bellach yn fecanwaith cyfranogi sefydliadol.

Gyda chyfuniad o'r ffactorau hyn, ynghyd â dod â'r sgwrs Genedlaethol 'Y Gymru a Garem' i ben, lleihawyd y sianeli oedd ar gael yn sylweddol i gyfranogiad allanol cyd-gysylltiedig ymhlith mudiadau gwirfoddol yn nhaith DC Llywodraeth Cymru ar draws y pedwar swyddogaeth - Llais y Dinesydd, Mewnbwn Arbenigol, Sefydlogi a Chraffu - sydd wedi'u trafod hyd yn hyn.

Y brif sianel oedd yn weddill oedd Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, nid oedd ganddo'r cylch gwaith i ddisodli'r holl sianeli cyfranogi eraill a oedd bellach wedi cau ac nid oedd y ddeddfwriaeth a'i creodd, gyda phwyslais cryf ar gyrff cyhoeddus, yn cynnig sianel lle gallai'r sector gwirfoddol barhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru o ran gweithredu'r Ddeddf.

Fel y nodwyd uchod, rhoddodd Cynnal Cymru y gorau i fod yn fecanwaith sefydliadol yn 2016 pan ddaeth cyllid LLC a'i gylch gwaith i ben. Newidiwyd pwyslais hefyd o fod yn llwybr i gasglu a rhannu tystiolaeth ac arbenigedd i sefydliad a ddefnyddiodd ei brofiad a'i arbenigedd cyfredol ei hun i weithio gydag eraill, yn bennaf yn y sector preifat, ac ar raddfa lawer llai.<sup>21</sup>

**Roedd y ffactorau hyn yn golygu nad oedd llwybr strwythuredig, parhaol, sefydliadol bellach ar gael i fudiadau gwirfoddol a oedd wedi chwarae rhan amlwg yn natblygiad y Ddeddf barhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r broses o'i gweithredu.**

Yn 2017, comisiynodd WWF Cymru ymchwil i'r cynnydd a wnaed gan Llywodraeth Cymru wrth gymhwyso deddfwriaeth LLC. Arweiniodd trafodaethau ar y canfyddiadau at gytundeb i gynnal cyfres o weithdai ym mis Ionawr/Chwefror 2018 a oedd yn cynnwys uwch swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru ac uwch gynrychiolwyr mudiadau'r sector gwirfoddol 'i greu dealltwriaeth gyffredin o sut gellir cyflawni cynnydd sy'n hawdd i'w adnabod wrth weithredu'r Ddeddf yng Nghymru a'i ddangos yn glir'<sup>22</sup>. Rhan o'r rhesymeg dros yr ymarfer hwn hefyd oedd 'gosod y sylfeini ar gyfer cyfranogiad mwy effeithiol a chynhyrchiol ymhlith rhanddeiliaid y trydydd sector yn y dyfodol.'<sup>23</sup>

Cyhoeddwyd yr adroddiad a gynhyrchwyd ar ôl y gweithdai ym mis Tachwedd 2018. Roedd yn cynnwys trafodaethau ac awgrymiadau allweddol ar gyfer gweithredu o ran llunio polisiau a ffordd Llywodraeth Cymru o weithredu ei Ddeddf ei hun. Cafwyd cydnabyddiaeth benodol o fewnbwn y sector gwirfoddol i ymateb y llywodraeth gyfan 'efallai drwy fod yn rhan o grŵp ymgynghorol corfforaethol' ynghyd â'r angen am adnoddau digonol a pharhaus i alluogi hyn.<sup>24</sup> Mewn man arall yn yr

---

<sup>21</sup> Cyfweld â staff Cynnal Cymru

<sup>22</sup> Adroddiad All Together, t4 (Llywodraeth Cymru a WWF Cymru, 2018)

<sup>23</sup> Ibid

<sup>24</sup> Ibid p10

adroddiad ceir cyfeiriadau dro ar ôl tro at yr angen i gynnal a 'gofalu am' gyfranogiad rhanddeiliaid ar gyfer ymgysylltu strategol sy'n benodol i bolisiau ac 'er mwyn sicrhau gwelliannau mewn cyfranogiad, dylai Llywodraeth Cymru dreialu modelau gwahanol mewn meysydd allweddol: grwpiau ymgynghorol /grwpiau cyfeirio / paneli dinasyddion.'

25

Cynhaliwyd gweithdy pellach rhwng Llywodraeth Cymru a mudiadau gwirfoddol ym mis Mai 2019 i archwilio hyn ymhellach, lle ailadroddwyd a chafwyd cydnabyddiaeth unwaith eto i'r angen i hwyluso mewnbyn strategol y sector gwirfoddol i ymateb y llywodraeth gyfan i'r Ddeddf *fel swyddogaeth ar wahân* i sefydlogi'r broses o weithredu neu ymgysylltu â chymdeithas gyfan.

Yn 2019, cadarnhaodd Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog, fwriad i sefydlu fforwm aml-randdeiliad i gefnogi'r broses o weithredu Deddf LLC, a fyddai'n cynnwys cynrychiolaeth o'r sector gwirfoddol.

Mae mudiadau gwirfoddol hefyd wedi codi'r materion hyn gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Arweiniodd hynny at CGGC yn ymuno â Phwyllgor Ymgynghorol y Comisiynydd i gynnig llais ar ran y sector gwirfoddol. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda CGGC sy'n nodi ei chred bod gan fudiadau gwirfoddol rôl allweddol wrth sicrhau llesiant pobl yn y dyfodol. Ei nod yw cefnogi ymgysylltiad, deialog a chyfathrebu rhwng mudiadau gwirfoddol a'r Comisiynydd yn ogystal â chyfleoedd i gydweithio.

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnig argymhellion, yn seiliedig ar gyfraniadau rhanddeiliaid y sector gwirfoddol ynglŷn â'r ffordd orau o gefnogi cyfranogiad y sector gwirfoddol yn y fforwm.

---

<sup>25</sup> Ibid p20

## **SYMUD YMLAEN: RÔL FFORWM AML-RANDEILIAD NEWYDD A GALLUOGI CYDWEITHIO EFFEITHIOL**

### **a) Modelau a Dysgu wrth Wledydd Eraill**

Er bod union gyfansoddiad fforwm aml-randdeiliad newydd Llywodraeth Cymru yn dal i gael ei archwilio, mae aelodau'r Gynghrair eisoes wedi trafod y rôl a'r ffurf y maen nhw'n credu allai gefnogi'r broses o weithredu'r Ddeddf orau a chreu mecanwaith cyfranogi 'parhaol, strwythuredig, sefydliadol a thraws-sector'.

Rydym hefyd wedi ystyried dulliau gwledydd eraill sydd wedi sefydlu mecanweithiau i alluogi ymgysylltiad strwythuredig traws-sector gyda gweithrediad DC strategol. Er enghraifft:

Mae gan y Ffindir Gomisiwn Cenedlaethol ar DC sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog, ac mae'n dod â gweinidogion lefel uchel, swyddogion y llywodraeth, cynrychiolwyr busnes a diwydiant, llywodraeth leol, grwpiau eglwysig, undebau llafur, cyrff anllywodraethol a chynrychiolwyr o'r gymuned wyddonol at ei gilydd<sup>26</sup>. Mae'n cydweithio â'r Pwyllgor Polisi Datblygu ac yn ceisio integreiddio amcanion strategol DC i'r polisi cenedlaethol, gweinyddiaeth ac arferion cymdeithasol, gan gynnwys cryfhau cydlyniaeth polisi a phrif ffrydio polisi DC. Cefnogir hyn gan banel DC arbenigol sy'n cynnwysdego uwch ysgolheigion a'i rôl yw dod â dealltwriaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae Panel 2030 Denmarc yn fwrdd ymgynghorol aml-randdeiliad i grŵp hollbleidiol Senedd Denmarc ar y nod Datblygu Cynaliadwy sy'n cynrychioli'r sector preifat, cymdeithas sifil, undebau, y byd academiaidd, bwrdeistrefi a sectorau eraill. Mae'n cefnogi'r grŵp (rhwydwaith 2030) drwy ddeialog, argymhellion, dadansoddi ar sail tystiolaeth ac adroddiadau. Mae Global Focus, platfform unedig ar gyfer mudiadau

---

<sup>26</sup> [Global Network of National Councils on Sustainable Development \(2019\)](#)

cymdeithas sifil Denmarc sy'n ymgysylltu â gweithgareddau datblygu, amgylcheddol a dyngarol, yn cael ei ariannu i ddarparu cymorth ysgrifenyddiaeth.

Mae Clymblaid DC Estonia yn dod â chwmnïau, asiantaethau gwladol a chyrrff anllywodraethol at ei gilydd gyda'r bwriad o ddod yn blatfform traws-sector i lunio ac i ddylanwadu ar benderfyniadau gwleidyddol, cymdeithasol a phersonol ar y cyd. Ymhlith y nodau mae mewnbwn i lunio a monitro polisïau, codi ymwybyddiaeth o DC a gwella'r cydweithio drwy gyfnewid gwybodaeth, ymgyrchoedd cyfryngau a rennir, hyfforddiant etc. Mae aelodau hefyd yn llofnodi 'Memorandwm Ewyllys Da' i ddangos eu hymrwymiad i helpu Estonia tuag at DC.

Mae Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol Iwerddon yn cynnig mecanwaith i randdeiliaid allweddol ymgysylltu'n barhaus wrth weithredu'r Nod Datblygu Cynaliadwy, gan gynnwys llywio datblygiad y fframwaith gweithredu cenedlaethol. Caiff ei arwain gan y Gweinidog Cyfathrebu, Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd sydd â chyfrifoldeb arweiniol am y dull llywodraeth-gyfan. Mae Llywodraeth Iwerddon hefyd yn ariannu Clymblaid Cymdeithas Sifil gan alw am gynllun gweithredu cenedlaethol uchelgeisiol y llywodraeth-gyfan, fforwm monitro cynhwysol a mwy o gyllid datblygu. Sefydlwyd y ddau fecanwaith uchod o dan Gynllun Gweithredu Nod Datblygu Cynaliadwy Iwerddon.

Mae dadansoddiad manylach o rolau a swyddogaethau'r rhain, a mecanweithiau eraill, yn Atodiad A.

Ar ôl astudio'r modelau hyn a chynnal cyfweiliadau a thrafodaethau gydag aelodau, rydym wedi datblygu gweledigaeth glir ynglŷn â'r ffurfiau a'r swyddogaethau y credwn y gallai fforwm aml-randdeiliad newydd i Gymru eu cymryd.

## b) Fforwm Aml-Randdeiliad i Gymru

### Model

Ein model o ddewis yw bod gan y fforwm **Gyngor Arbenigol a Chraffu** fel ei swyddogaethau craidd i alluogi mewnbwn strategol parhaus i broses LLC o weithredu'r Ddeddf yn hytrach na rôl **Sefydlogi** i sbarduno gweithredu cymdeithas-gyfan ar DC neu rôl sy'n debyg i 'Y Gymru a Garem' i alluogi **Llais y Dinesydd**, er y gallai'r rhain gael eu goruchwyllo gan y fforwm hwn hefyd pe na baent yn tynnu oddi ar y genhadaeth graidd.

Byddem yn rhagweld y byddai'r fforwm yn dod ag arbenigedd a thystiolaeth o bob sector i helpu Llywodraeth Cymru i adolygu a gwella ei effeithiolrwydd wrth gyflawni DC drwy ei bolisi allanol a'i fecanweithiau mewnol - ei 'ymateb llywodraeth-gyfan'. Mewn cyfweiliadau a thrafodaethau gydag aelodau'r Gynghair DC, cafwyd consensws llethol mai hwn oedd y maes â'r diffyg mwyaf, lle gallai'r rhanddeiliaid gael yr effaith fwyaf, a dyma'r flaenoriaeth bwysicaf o gofio pwysau cynaliadwyedd a'r amser, capasiti a chyllidebau prin sydd ar gael.

Er enghraifft, byddem yn gweld y Fforwm yn cael:

- golwg gynnar ar ddatblygiadau polisi allweddol o bob portffolio (e.e. polisiau datblygu cenedlaethol neu sector mawr, a 'mecanweithiau'r llywodraeth' fel prosesau caffael a chyllidebu a chynllunio) gyda'r gallu i gwrdd â Gweinidogion unigol i drafod y rhain.
- mewnbwn i'r broses o bennu ac adolygu strategaethau a gofynion statudol Deddf LLC (e.e. Amcanion Llesiant, Cerrig Milltir Dangosyddion Cenedlaethol)
- y gallu i amlygu enghreifftiau o arfer gwael mewn polisi neu broses ac argymell newidiadau

- rôl wrth ddarparu adolygiad, sylwebaeth a dadansoddiad annibynnol i adroddiadau LLC, gan gynnwys y broses adrodd flynyddol ar weithredu'r Ddeddf
- lle i rannu arloesedd a newid trawsnewidiol (polisi a mecanweithiau llywodraeth) y gellir eu defnyddio ar gyfer gweithio yn y dyfodol
- y gallu i weithredu, o bosib, fel llais ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol - gan ystyried effeithiau hirdymor y gwaith gyda chenedlaethau'r dyfodol
- a rôl allweddol wrth gefnogi datblygiad LLC a gweithredu ei ddull 'llywodraeth-gyfan'

Yn rhyngwladol, mae'r Cynghorau Cenedlaethol ar DC yn aml wedi cyflawni'r rolau cynghori a chraffu hyn, ac mae Rhaglen Ddatblygu'r Cenedloedd Unedig wedi dod i'r casgliad bod y rôl hon o archwilio materion DC a chynghori ar ddatblygiad a llwyddiant strategaeth a pholisi DC 'yn amlwg wedi bod yn un o feysydd mwyaf cynhyrchiol gweithgareddau'r Cynghorau Cenedlaethol ar DC'<sup>27</sup>. Dyma hefyd lle mae aelodau'r Gynghrair wedi nodi'r bwlch mwyaf o ran cyfranogiad y sector gwirfoddol â'r Ddeddf ers 2015 a dyma'r rôl y teimlwn fyddai orau i gyflawni argymhellion yr adroddiad *All Together*.

## **Arweinyddiaeth**

O ran arwain y Fforwm, mae canllawiau'r UNDP yn tynnu sylw at y ffaith y gall rhoi cyrff cynghori o'r fath o fewn gweinidogaethau penodol arwain at beidio â chael digon o 'ddylanwad gwleidyddol' i fod yn effeithiol o ran dylanwadu ar bolisi a phroses traws-bortffolio. I'r

---

<sup>27</sup> *Mecanweithiau cydlynu a sefydliadol* Nodyn canllaw ar Hwyluso Integreiddio a Chydlyniant ar gyfer Gweithredu Nodau DC UNDP 2017 <https://www.undp.org/content/undp/en/home/librarypage/sustainable-development-goals/institutional-and-coordination-mechanisms---guidance-note.html>



gwrthwyneb, nodir hefyd buddion cydlynu 'lleoli lefel uwch' effeithiol drwy roi'r rhain o dan swyddfa'r arlywydd neu'r prif weinidog.

Efallai y bydd manteision i'r Fforwm gael cadeirydd annibynnol, fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae anfanteision hefyd. Ni all y cadeirydd gael ei ddal i gyfrif am gyflwyno'r cynlluniau gwaith neu'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan y Fforwm yn yr un ffordd ag y byddai gweinidog y llywodraeth â dylanwad uniongyrchol ar beirianwaith y llywodraeth. O ystyried y disgwyliad y bydd y Fforwm hefyd yn helpu Llywodraeth Cymru yn ei hymateb llywodraeth-gyfan i'r Ddeddf, rydym o'r farn bod uwch ffigyrau'r llywodraeth yn fwy priodol i arwain hyn.

Felly byddem yn rhagweld y byddai'r Fforwm yn cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog neu'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip.

Byddem hefyd o blaid 'rhwydwaith cydlynu DC' o fewn y Senedd (naill ai traws-Gabinet neu drawsbleidiol neu'r ddau), ac o bosibl pwyllgor traws-bortffolio arbennig a fyddai'n gweithio gyda'r Fforwm i wneud y mwyaf o'i gyrhaeddiad a'i ddylanwad. Mae hyn yn debyg i'r dull a fabwysiadwyd gan seneddwyr yn y Ffindir a Denmarc.

## **Cynrychiolwyr**

O ran ei gyfansoddiad, rydym yn cymryd yn ganiataol y bydd y Fforwm yn debyg i strwythurau mewn gwledydd eraill gyda chynrychiolwyr o bob rhan o gymdeithas sifil (mudiadau'r sector gwirfoddol, undebau llafur, y byd academaidd) yn ogystal â chyrrff busnes a chyhoeddus, yn debyg i'r hen Gomisiwn DC neu Gomisiwn Cymru ar Newid yn yr Hinsawdd.

Mae aelodau'n pwysleisio ei bod yn hanfodol bod yr aelodaeth yn gytbwys ac nad yw'n cael ei dominyddu gan unrhyw sector penodol a bod mudiadau gwirfoddol, er enghraifft, yn cael eu cynrychioli i'r un graddau o leiaf e.e. buddion masnachol. Byddai angen tryloywder hefyd o ran sut cafodd aelodau eu dethol a'r disgwyliadau arnynt i gynnwys cynulleidfaoedd ehangach.

## **Adnodd**

Amlygwyd dro ar ôl tro yr angen am ysgrifenyddiaeth barhaol ac adnoddau ar gyfer y Fforwm i gydlynu a llywio'r gweithredu rhwng cyfarfodydd ac i sicrhau bod y rhain yn canolbwyntio ar atebion neu gynnyrch. Nodwyd bod diogelwch cyllid yn hanfodol ar gyfer y cynllunio hirdymor y byddai ei angen ar gyfer craffu a chynghor effeithiol ynglŷn â phwyntiau allweddol wrth weithredu'r Ddeddf.

Gofynion eraill a nodwyd gan aelodau oedd yr angen am Gadeirydd cryf, Cylch Gorchwyl clir a mecanwaith adolygu cyfnodol i sicrhau bod y Fforwm yn parhau i fod yn addas.

Byddai angen i'r ffyrdd y byddai'r Fforwm hwn yn ymgysylltu â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gael eu harchwilio a'u mynegi'n glir er budd pawb.

## **SUT BYDD Y SECTOR GWIRFODDOL YN YMGYSYLLTU Â'R FFORWM AML-RANDEILIAID?**

Er bod aelodau'r Gynghrair yn croesawu'r penderfyniad i sefydlu'r dull traws-sector hwn rydym hefyd yn adleisio argymhelliad Concord bod gwledydd yn sicrhau proses gyfranogi strwythuredig i'r sector gwirfoddol ymgysylltu yn y broses o weithredu a monitro Agenda 2030 'yn barhaol ac yn barhaus, fel cyfranogwr ynddo'i hun' ac yn 'sectoraidd a thraws-sectoraidd'.

Bydd cynrychiolwyr y sector gwirfoddol yn ymgysylltu â'r agenda hon ar draws sectorau drwy'r Fforwm Aml-Randdeiliad. Serch hynny, i ymgysylltu'n effeithiol, ac i ddarparu mecanwaith ar gyfer ymgysylltu'n ehangach â'r sector gwirfoddol yn benodol o ran gweithredu Deddf LLC, credwn fod angen gofod 'sectoraidd' ar wahân ar gymdeithas sifil hefyd i ddod at ei gilydd ar ei thelerau ei hun. Byddai fforwm sectoraidd yn caniatáu i fudiadau gwirfoddol osod eu hagenda eu hunain ac efallai cael trafodaethau mwy beirniadol neu â ffocws penodol nag a fyddai'n bosibl mewn fforwm traws-sector a allai anelu'n fwy at gydweithio a datblygu consensws.

Mae cymdeithas sifil yn aml wedi bod ar flaen y gad wrth lywio newid cymdeithasol, gan baratoi'r ffordd ar gyfer newid sefydliadol yn ddiweddarach, ac mae'n bwysig bod lle o hyd i ddod at ei gilydd i herio, i gytuno ac i flaenoriaethau a gwthio am weithredu. Fel y nodwyd gan sawl un wnaeth ymateb, mae'r angen am y dau le hyn yn hollbwysig, hyd yn oed os yw'n ymddangos ar bapur mai'r un bobl o fewn y sector fyddai'n bresennol yn y ddau i raddau helaeth. Mae bron yn anochel y bydd mwy o feysydd trafod, cydweithio neu graffu nag y bydd y Fforwm yn gallu mynd i'r afael â nhw ac y bydd gwaith yn ychwanegol at ffrydiau gwaith neu gynlluniau gweithredu'r Fforwm y byddai'r sector am eu hystyried. Bydd hyn yn cynyddu'r cyfraniad y gall mudiadau gwirfoddol ei wneud i'r Fforwm Aml-Randdeiliad a gweithredu'r Ddeddf yn ehangach.

Dyma hefyd fyddai'r lle i rannu gwybodaeth, gan fwydo'n ôl o'r Fforwm Aml-Randdeiliad, a darparu seinfwrdd i gynrychiolwyr y Fforwm

gwmpasu cynigion a chasglu gwybodaeth, a thrwy hynny gyfreithloni rôl y gynrychiolaeth ymhellach. Gallai gofod sectoraidd ar wahân hefyd ddod â mwy o amrywiaeth o leisiau nag y gallai'r Fforwm ei gynnwys o bosib - gan gynnwys pobl ifanc a chynulleidfaoedd eraill sy'n cael eu tan-gynrychioli yn hanesyddol wrth wneud penderfyniadau - yn unol ag ymrwymiad Agenda 2030 'i adael neb ar ôl'.

Iwerddon yw un o'r gwledydd i fabwysiadu'r dull yma drwy Glymblaid Cymdeithas Sifil sydd wedi'i chreu a'i hariannu gan Lywodraeth Iwerddon fel rhan o'r Cynllun Gweithredu NDC cyntaf. Mae ganddi bwrpas eiriolaeth penodol, gyda Chylch Gorchwyl, Grŵp Llywio a chynlluniau gweithredu a ddatblygwyd gan ei aelodaeth lawn. Mae hefyd yn cynnal dau weithgor ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Pholisi. Mae'r Cydlynnydd, er ei fod wedi'i ariannu gan Lywodraeth Iwerddon, yn cael ei gyflogi gan sefydliad cymdeithas sifil. Mae hyn yn eistedd ochr yn ochr â'r Fforwm Rhanddeiliaid NDC Cenedlaethol a grewyd hefyd o dan y Cynllun Gweithredu NDC i 'ddarparu mecanwaith i randdeiliaid allweddol ymgysylltu'n barhaus wrth weithredu'r Nodau yn genedlaethol'. Mae'n cael ei chadeirio gan Weinidog Iwerddon dros Gyfathrebu, Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd, sy'n gyfrifol am arwain y dull llywodraeth-gyfan.

Mae gan Ddenmarc hefyd amryw fecanweithiau ymgysylltu sectoraidd a thraws-sector gan gynnwys bwrdd ymgynghorol aml-randdeiliad sydd wedi'i ariannu (Panel 2030) sy'n cynnig cefnogaeth ar ddadansoddi, sialens a rhannu gwybodaeth grŵp hollbleidiol Senedd Denmarc ar y Nodau DC (Rhwydwaith 2030). Mae'r Weinyddiaeth Materion Allanol hefyd yn cefnogi Global Focus, clymblaid cymdeithas sifil sy'n canolbwyntio ar weithredu Nodau DG yn ogystal â rôl cymdeithas sifil, arweinyddiaeth a datblygiad yn y presennol ac yn y dyfodol. Mae Global Focus yn cynnig cymorth ysgrifenyddiaeth i Banel 2030 gan greu cysylltiadau pellach ar draws yr holl gyfranogwyr.

Yn ddiddorol mae clymblaid cymdeithas sifil arall yn Denmarc sy'n canolbwyntio ar weithredu DC - y Grŵp Danish 92. Mae'n ymddangos bod gan y glymblaid hon swyddogaeth ychydig yn wahanol gyda mwy o

bwyslais ar eiriolaeth a chydlynu prosesau polisi ar gyfer sefydliadau cymdeithas sifil. Gall hyn fod oherwydd, er y gall sefydliadau cymdeithas sifil Denmarc sy'n gysylltiedig â gweithgareddau datblygu, amgylcheddol a dyngarol, gymryd rhan yng nghyfarfod cyffredinol Global Focus (sy'n gosod cynlluniau gwaith a blaenoriaethau), dim ond aelodau sy'n talu sydd â'r hawl i bleidleisio. (O ystyried pwysau cyllidebol ar y rhan fwyaf o sefydliadau, rydym yn gwybod y bydd ffi aelodaeth yn eithrio rhai cyfranogwyr). Yn ogystal, gallai fod yn well gan rai sefydliadau gynnal annibyniaeth oddi wrth strwythurau sefydliadol - gan adlewyrchu sylwadau ymatebwyr bod angen i'r sector ddod at ei gilydd 'ar ei delerau ei hun.'

## **A OES ANGEN STRWYTHUR NEWYDD AR Y GOFOD CYMDEITHAS SIFIL YMA?**

### **a) Perthynas â Chynllun y Trydydd Sector**

Rydym yn croesawu dull Tîm Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru o weithio gyda rhanddeiliaid i adolygu mecanweithiau cyfredol a chynnal dadansoddiad bwlch o'r prosesau cyfranogi sy'n bodoli ar gyfer sectorau gwahanol. Bwriad yr adroddiad hwn yw cyfrannu at y dadansoddiad hwn ac, fel rhan o hyn, mae CGGC hefyd wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd o'i ymwneud â Chynllun Trydydd Sector Llywodraeth Cymru.

Gosododd Deddf Llywodraeth Cymru (1998) gyfrifoldeb statudol ar y llywodraeth i ddatblygu cynllun sector gwirfoddol gan nodi sut byddai'n hyrwyddo budd mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Mae'r cynllun yn nodi mecanweithiau ymgysylltu parhaol, strwythuredig a sefydliadol rhwng y llywodraeth a mudiadau gwirfoddol, sy'n cael eu cydlynu ar hyn o bryd rhwng LLC a CGGC. Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a chyfarfodydd bob dwy flynedd rhwng mudiadau gwirfoddol a phob Gweinidog yn ganolog i hyn.

Mae'r strwythurau a sefydlwyd o dan y Cynllun Trydydd Sector yn chwarae rhan sylweddol wrth alluogi deialog rhwng LLC a'r sector

gwirfoddol; meithrin perthnasoedd dibynadwy; ac yn y pen draw, galluogi proses well o lunio polisiau. Serch hynny, ar hyn o bryd nid oes gan y strwythurau hyn y swyddogaeth o gydlynu deialog arbenigol a dadansoddiad o bolisiau DC; nid oes ganddynt chwaith y cylch gwaith na'r capasiti i gyflawni'r dasg hon heb adnoddau ychwanegol. Credwn felly fod bwlch clir o hyd o ran hwyluso mudiadau gwirfoddol i ddod ynghyd gyda'r pwyslais penodol ar weithio ar y cyd o ran gweithredu'r Ddeddf a bod yn ffynhonnell gref o arbenigedd ar hyn o fewn y sector. Y rheswm am hynny yw:

- Ar hyn o bryd, mae'r mecanweithiau ar gyfer deialog o dan y Cynllun Trydydd Sector yn canolbwyntio'n bennaf ar y berthynas rhwng LLC a'r sector gwirfoddol ac nid ar weithredu darn penodol o ddeddfwriaeth a'i offerynnau statudol.
- Mae gweithredu Deddf LLC yn 'fater mor eang a pharhaus' fel bod rhaglen waith glir ar gyfer sawl blwyddyn o'n blaenau yn ogystal ag ymrwymadau cyfredol Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector o dan ei Gynllun Gwella. Byddai'n afrealistig disgwyl i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector allu gwneud hynny yn y byr dymor heb fod y rhaglen waith bresennol yn dioddef.

Rydym yn disgwyl y byddai angen i strwythur sydd â mecanwaith aelodaeth mwy hygyrch a hyblyg na Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i fudiadau gwirfoddol ymgysylltu â'r Fforwm Aml-Randdeiliad.

Cytunodd y mwyafrif o ymatebwyr, er gwaethaf pryderon ynglŷn â capasiti a'r llu o fforymau y gofynnir i fudiadau gwirfoddol eu mynychu, bod dal angen strwythur ar wahân i alluogi cynrychiolwyr y sector gwirfoddol ar y Fforwm Aml-Randdeiliaid i berfformio eu rôl yn effeithiol. Yn hanfodol, gallai'r strwythur hwn hefyd gefnogi sianeli cyfranogol eraill sy'n dod i'r amlwg, naill ai rhai sydd â therfyn amser – e.e. yr ymgysylltiad diweddar o amgylch yr Adolygiad Gwirfoddol Cenedlaethol o gynnydd ar y Nodau DC – neu'n hirdymor. Yn benodol, rydym yn croesawu'r ffaith bod CGGC wedi llofnodi memorandwm cyd-

ddealltwriaeth yn ddiweddar gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i alluogi partneriaeth well i weithio gyda'r trydydd sector gan gynnwys cyfarfodydd bob chwe mis rhwng y Comisiynydd a mudiadau gwirfoddol. Yn ogystal, ysgrifennodd y Comisiynydd at y Prif Weinidog yn gofyn i gynrychiolydd o'r sector gwirfoddol gael ei gynnwys ar Grŵp Ymgynghorol y Comisiynydd. Rydym yn rhagweld y byddai'r fforwm cymdeithas sifil hwn felly'n darparu'r sylfaen eang o brofiad, mewnwelediad ac arbenigedd i gefnogi'r cynrychiolwyr sy'n ymgysylltu â'r mecanweithiau a'r rhaglenni gwaith hyn yn ogystal â rhai'r Fforwm Aml-Randdeiliad.

Gallai creu adnodd arbenigol o'r fath hefyd gefnogi'r mecanweithiau ymgysylltu cyfredol o dan Gynllun y Trydydd Sector, fel Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, i ddeall sut gall ei waith addasu i gefnogi'r broses o gyflwyno'r Ddeddf yn barhaus, gan gynnwys ar draws gwahanol feysydd polisi a phortffolio.

### **b) A oes dyfodol i rôl y Gynghrair DC?**

O ran safbwyntiau'r aelodau ynglŷn â dyfodol i'r Gynghrair DC, roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn teimlo mai hwn yw'r unig strwythur sector gwirfoddol sy'n cydlynu deallusrwydd ac eiriolaeth strategol o ran gweithredu'r Ddeddf yn gyffredinol ac nad yw'r rôl hon yn cael ei dyblygu yn unman arall. Felly mae'n grŵp 'parod' ar gyfer cefnogi cynrychiolwyr y sector gwirfoddol ar y Fforwm Aml-Randdeiliad.

Serch hynny, mae'r Gynghrair DC ar hyn o bryd yn grŵp bach a byddai clymblaid ehangach o fewn y sector gwirfoddol i gefnogi cynrychiolwyr Fforwm Aml-Rhanddeiliad y sector gwirfoddol ac i sefydlogi'r broses o weithredu DC yn ddymunol iawn. Gall arddangos cefnogaeth gyhoeddus ehangach i rai newidiadau ychwanegu hygyrdd a dilysrwydd at yr eiriolaeth 'fewnol' y mae aelodau'n ymgysylltu â hi ar hyn o bryd a hefyd i gynyddu perchnogaeth cymdeithas gyfan o ran polisi ac uchelgais DC y wlad. Serch hynny, fel y cydnabyddir gan y gweithgorau ar wahân yng nghlymblaid cymdeithas sifil Iwerddon, mae'r swyddogaeth sefydlogi allanol hon yn gofyn am bwyslais ar wahân, gwahanol setiau o sgiliau,

cynulleidfaoedd a thechnegau cyfathrebu na'r swyddogaeth fwy mewnblyg sy'n gysylltiedig â mewnbwn arbenigol ar strategaeth a pholisïau.

Ar y pwynt hwn, yr angen llethol a nodwyd gan yr aelodau a'r holl weithdai ymgysylltu hyd yma, yw am gyngor arbenigol a mewnbwn strategol. Yn union fel y mae disgwyl i'r Fforwm Aml-Rhanddeiliad ganolbwyntio ar Gyngor Arbenigol a Chraffu, byddai angen y pwyslais hwn hefyd ar unrhyw grŵp cymorth ar gyfer cynrychiolwyr y sector gwirfoddol ar y Fforwm Aml-Rhanddeiliad. Gallai strwythur cymorth annibynnol i'r sector gwirfoddol fod â nodau ehangach yn ychwanegol at hyn, y gellid darparu adnoddau drwy LLC neu drwy ddenu math arall o gyllid. Yn benodol, byddai fforwm o'r fath mewn sefyllfa dda i sbarduno gweithredu o amgylch y Nodau Llesiant drwy ymgyrchoedd, rhannu gwybodaeth a dulliau sefydlogi eraill, fel y treialwyd yn llwyddiannus yn yr Alban. Gellid harneisio cyrhaeddiad helaeth y sector gwirfoddol i ddinasyddion ar draws y sector ac ar draws Cymru drwy'r strwythur hwn i hyrwyddo ac i gydlynu ymgysylltiad cenedlaethol ynglŷn â llesiant a Nodau Deddf LLC. Gallai hyn ddarparu fforwm parhaol i gasglu a dadansoddi Llais y Dinesydd i ddeall effaith y broses o weithredu Deddf LLC yn well a sut i gyflymu ei gynnydd.

Serch hynny, yn y tymor uniongyrchol, roedd aelodau'r Gynghrair yn glir y dylai'r rhain **eistedd ochr yn ochr, yn hytrach nag yn lle'n** prif bwrpas o alluogi cyfranogiad strategol parhaus y sector gwirfoddol wrth gefnogi a monitro gweithrediad Deddf LLC.

### **c) Adnoddau**

Mae consensws ymhlith aelodau y byddai angen darparu corff cymorth ar gyfer cynrychiolwyr y sector gwirfoddol gydag ysgrifenyddiaeth sydd wedi'i hariannu sy'n gallu cydlynu gweithgareddau a chynlluniau gwaith. Mae'r disgwyliad y byddai mudiad y sector gwirfoddol yn camu i'r rôl hon heb arian yn debygol o arwain at ei wneud 'ar ben y swydd bob dydd' gan arwain nid yn unig at staff yn llosgi allan ond methiant i fanteisio ar y gwerth posibl y gallai grŵp o'r fath ei gynnig. Profiad WEL o ddarparu



ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Gynghrair DC yw bod mwy o archwaeth wastad wedi bod ymhlith aelodau am waith (papurau sefyllfa, ymatebion i ymgynghoriadau, casglu gwybodaeth etc.) na gallu'r ysgrifenyddiaeth i gefnogi hyn. O ran dod o hyd i adnoddau, teimlwyd bod model ffioedd aelodaeth yn afrealistig yn wyneb cyllidebau sy'n crebachu ac, er bod rhai mecanweithiau cyfranogi sy'n hunan-gyllidol – fel UKSSD a gefnogir gan sawl corff anllywodraethol mawr - nid oes yr un adnoddau ymhlith partneriaid Cymru i allu ariannu model cyfatebol ar lefel Gymreig. Mae cyllid allanol drwy e.e. ymddiriedolaethau neu sefydliadau yn opsiwn arall, fel model yr Alban, ond nid yw hynny'n cynnig diogelwch o ran hirhoedledd a bydd yn cyfyngu ar gwmpas y gweithgareddau y gallai Fforwm o'r fath eu cyflawni.

Credwn felly y dylid ystyried ariannu'r rôl gymorth hon gan Lywodraeth Cymru fel buddsoddiad angenrheidiol o ran ei effeithiolrwydd ei hun wrth gyflawni'r Ddeddf.

#### **d) Argymhelliad:**

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn clymblaid cymdeithas sifil eang, fel model Iwerddon, lle mae cydlynu cyngor arbenigol a chraffu gan y sector yn swyddogaeth graidd ochr yn ochr â gweithgareddau eraill i ysgogi gweithredu ynglŷn â DC.